

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

### Adroddiad ar sail Rhagoriaeth ar gyfer Offerynnau Statudol a osodwyd yn rhy hwyr yn y Pedwerydd Cynulliad i'r Pwyllgor allu craffu arnynt

Gosodwyd pob un o'r Offerynnau a ganlyn gerbron y Cynulliad yn rhy hwyr i ganiatáu iddynt gael eu hystyried yn llawn gan Bwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Pedwerydd Cynulliad.

Yn y Pumed Cynulliad, nid yw'n debygol y caiff y pwyllgor perthnasol ei sefydlu tan ar ôl i'r terfyn amser o 20 niwrnod ar gyfer cyflwyno adroddiad ddod i ben. Mae'n bosibl y bydd y terfyn amser o 40 niwrnod, pan gaiff y Cynulliad ddirymu'r Offerynnau, hefyd wedi dod i ben cyn y caiff y pwyllgor newydd gyfle i ystyried yr Offerynnau hyn.

O dan yr amgylchiadau hynny, ni fyddai'r Offerynnau wedi bod yn destun gwaith craffu gan y Cynulliad, a byddai Aelodau'r Cynulliad wedi colli cyfle i gyflwyno cynigion i ddirymu unrhyw un o'r Offerynnau.

Felly, mae'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol wedi cytuno i gyflwyno adroddiad, o dan Reol Sefydlog 21.3, yn nodi y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol roi sylw arbennig i'r Offerynnau Statudol hyn am eu bod yn ymwneud â materion polisi cyhoeddus sy'n debygol o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad (hynny yw, mae'n bosibl y byddant yn osgoi'r trefniadau craffu arferol ar gyfer Offerynnau Statudol).

### CLA700 - Rheoliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Diwygiadau Canlyniadol) (Is-ddeddfwriaeth) (Diwygio) 2016

#### Gweithdrefn: Negyddol

---

Gwnaeth Rheoliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Diwygiadau Canlyniadol) (Is-ddeddfwriaeth) 2016 ddiwygiadau canlyniadol a chysylltiedig i is-ddeddfwriaeth o ganlyniad i gychwyn Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae rheoliad 2 yn diwygio Rheoliadau 2016 i hepgor cyfeiriad at ddwy gyfres o reoliadau o Atodlen 2 i Reoliadau 2016 gan iddynt gael eu cynnwys mewn camgymeriad. (Mae Atodlen 2 i Reoliadau 2016 yn gwneud darpariaeth i ddatgymhwyso mewn perthynas â Chymru yr is-ddeddfwriaeth a restrir yn yr Atodlen honno).

Y ddwy gyfres o reoliadau yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Cyngori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (Atgyfeirio Achosion a Adolygwyd) 2004 a Rheoliadau'r Gwasanaeth Cyngori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (Atgyfeirio Achosion a Adolygwyd) (Diwygio) 2005.



Bydd y diwygiad a wnaed gan reoliad 2 yn sicrhau y bydd y ddwy gyfres o reoliadau yn parhau i fod yn gymwys mewn perthynas â Chymru a Lloegr.

**Fe'u gwnaed ar:** 9 Mawrth 2016

**Fe'u gosodwyd ar:** 14 Mawrth 2016

**Yn dod i rym ar:** 5 Ebrill 2016

**20 niwrnod yn dod i ben:** 19 Mai 2016

**40 niwrnod yn dod i ben:** 14 Mehefin 2016.

## CLA701 - Rheoliadau Adeiladu (Diwygio) (Cymru) 2016

### Gweithdrefn: Negyddol

---

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Adeiladu 2010. Maent yn trosi Erthygl 8 o Gyfarwyddeb 2014/61/EU Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 15 Mai 2014 ar fesurau i leihau costau sefydlu rhwydweithiau cyfathrebu electronig cyflym.

**Fe'u gwnaed ar:** 10 Mawrth 2016

**Fe'u gosodwyd ar:** 15 Mawrth 2016

**Yn dod i rym ar:** 8 Ebrill 2016

**20 niwrnod yn dod i ben:** 20 Mai 2016

**40 niwrnod yn dod i ben:** 15 Mehefin 2016.

## CLA702 - Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Cyfansoddiad, Marchnata a Defnydd) (Cymru) 2016

### Gweithdrefn: Negyddol

---

Mae'r Rheoliadau hyn yn-

- (a) darparu ar gyfer parhau i orfodi neu weithredu Rheoliadau a Chyfarwyddebau'r UE ar ddiogelwch bwyd anifeiliaid, bwyd anifeiliaid a addaswyd yn enetig, ychwanegion bwyd anifeiliaid, marchnata a defnyddio bwyd anifeiliaid, sylweddau annymunol (difwynwyr) mewn bwyd anifeiliaid a bwyd anifeiliaid ar gyfer dibenion penodol o ran maeth;
- (b) rhagnodi troseddau a chosbau am beidio â chydymffurfio â'r Rheoliadau; ac
- (c) dirymu neu wneud diwygiadau canlyniadol i Reoliadau penodol.

**Fe'u gwnaed ar:** 15 Mawrth 2016

**Fe'u gosodwyd ar:** 17 Mawrth 2016

**Yn dod i rym ar:** 12 Mai 2016

**20 niwrnod yn dod i ben:** 22 Mai 2016

**40 niwrnod yn dod i ben:** 17 Mehefin 2016.



## CLA703 - Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid, Samplu etc a Gorfodi) (Cymru) 2016

### Gweithdrefn: Negyddol

---

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer parhau i weithredu a gorfodi rheoliadau'r UE sy'n ymwneud â hylendid bwyd anifeiliaid a dulliau samplu a dadansoddi bwyd anifeiliaid. Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn gwneud darpariaeth o ran gweinyddu cyffredinol mewn perthynas â chyfraith bwyd anifeiliaid, yn enwedig er mwyn rhoi effaith i reoliadau'r UE sy'n ymwneud â chadarnhau y cydymffurfir â chyfraith bwyd anifeiliaid a bwyd, a rheolau iechyd a lles anifeiliaid.

**Fe'u gwnaed ar:** 15 Mawrth 2016

**Fe'u gosodwyd ar:** 17 Mawrth 2016

**Yn dod i rym ar:** 12 Mai 2016

**20 niwrnod yn dod i ben:** 22 Mai 2016

**40 niwrnod yn dod i ben:** 17 Mehefin 2016.

## CLA704 - Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat (Cymru) (Diwygio) 2016

### Gweithdrefn: Negyddol

---

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat (Cymru) 2010 er mwyn gweithredu Cyfarwyddeb y Cyngor 2013/51/EURATOM ar ddiogelu iechyd y cyhoedd yn gyffredinol o safbwynt sylweddau ymbelydrol mewn dŵr a fwriedir i'w yfed gan bobl mewn perthynas â chyflenwadau dŵr preifat.

**Fe'u gwnaed ar:** 21 Mawrth 2016

**Fe'u gosodwyd ar:** 23 Mawrth 2016

**Yn dod i rym ar:** 14 Ebrill 2016

**20 niwrnod yn dod i ben:** 25 Mai 2016

**40 niwrnod yn dod i ben:** 21 Mehefin 2016.

## CLA705 - Rheoliadau Cyflenwad Dŵr (Ansawdd Dŵr) (Diwygio) 2016

### Gweithdrefn: Negyddol ar y cyd

---

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cyflenwad Dŵr (Ansawdd Dŵr) 2010 er mwyn gweithredu Cyfarwyddeb y Cyngor 2013/51/EURATOM ar ddiogelu iechyd y cyhoedd yn gyffredinol o safbwynt sylweddau ymbelydrol mewn dŵr a fwriedir i'w yfed gan bobl mewn perthynas â dŵr a gyflenwir gan ymgymeryr dŵr y mae eu hardaloedd i gyd neu'n bennaf yng Nghymru.



**Fe'u gwnaed ar:** 21 Mawrth 2016  
**Fe'u gosodwyd ar:** 23 Mawrth 2016  
**Yn dod i rym ar:** 14 Ebrill 2016  
**20 niwrnod yn dod i ben:** 25 Mai 2016  
**40 niwrnod yn dod i ben:** 21 Mehefin 2016.

## CLA706 - Rheoliadau Personau Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur) (Cymru) (Diwygio) 2016

### Gweithdrefn: Negyddol

---

Mae bathodyn parcio person anabl ("Bathodyn Glas" fel y'i gelwir) yn galluogi'r deiliad i elwa ar ystod o gonsesiynau parcio ac esemptiadau rhag ffioedd penodol sy'n berthnasol i fodurwyr eraill. Mae Rheoliadau Personau Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur) (Cymru) 2000 ("y Prif Reoliadau") yn gwneud darpariaeth ynghylch cyhoeddi bathodynnau gan awdurdodau lleol.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Prif Reoliadau i ddarparu disgrifiad o bobl anabl sy'n cynnwys pobl ag anabledd dros dro ond sylweddol y disgwylir iddo effeithio ar eu gallu i symud o gwmpas am o leiaf ddeuddeg mis.

**Fe'u gwnaed ar:** 29 Mawrth 2016  
**Fe'u gosodwyd ar:** 30 Mawrth 2016  
**Yn dod i rym ar:** 1 Hydref 2016  
**20 niwrnod yn dod i ben:** 25 Mai 2016  
**40 niwrnod yn dod i ben:** 21 Mehefin 2016.

